Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV75
Ymateb gan Cyngor Celfyddydau Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Response from Arts Council of Wales and Wales Arts International

Nodyn briffio

# Diweddariad ar Frecsit a'r effaith bosibl ar gelfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

10 Gorffennaf 2020

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV75
Ymateb gan Cyngor Celfyddydau Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Response from Arts Council of Wales and Wales Arts International

## Cyflwyniad

**1.** Mae celfyddydau Cymru yn wynebu ergyd dwbl oherwydd yr effaith negyddol a'r ansicrwydd oherwydd y coronafeirws a brecsit.

**2.** Bydd angen cynllunio'n ofalus a phenderfynol i ailosod ein gwaith ar ôl yr argyfyngau. Mae ymgorffori darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig y map gorau inni allu mynd drwy risgiau cyfunol y coronafeirws a brecsit.

**3.** Gwnaed cyflwyniad yn 2019 i Bwyllgor Diwylliant, Cymraeg a Diwylliant y Senedd am yr effaith brecsit ar gelfyddydau Cymru[1]. Darparwyd tystiolaeth ddilynol gennym ar effaith y coronafeirws y mis diwethaf[2]. Rydym ni'n cynllunio ymateb llawn i'r Ymchwiliad i Faterion Ewropeaidd ac Allanol sydd ar y gweill yn yr hydref.

## Arian

**4.** Mae celfyddydau Cymru wedi cael budd sylweddol o raglenni ariannol Ewropeaidd.[3] Mae ein perthynas ag Ewrop hefyd wedi helpu i adeiladu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyfnewid sgiliau a datblygu marchnadoedd newydd. Ein pryder yw na fydd yr arian amnewid yn y dyfodol yn gallu efelychu rhaglen gyda 27 o wledydd partner.

**5.** Rydym ni wedi ymateb i ymchwiliad diweddar Pwyllgor Materion Cymreig Senedd Prydain[4] ac i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynigion ar gyfer y gronfa ffyniant a rennir. Rydym ni hefyd yn cymryd rhan yn ymgynghoriadau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am raglen amnewid arfaethedig Prydain ar gyfer Ewrop Greadigol.

**6.** Rydym ni'n parhau i gefnogi hawl datganoledig Llywodraeth Cymru a'r Alban i benderfynu ar gyfranogi o raglenni Ewropeaidd yn y dyfodol, os yw hynny'n opsiwn. Ond hoffem ni bwysleisio y byddai'n well gennym pe bai Prydain gyfan yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol ag Ewrop Greadigol a rhaglenni trawswladol eraill.

1 https://busnes.senedd.cymru/documents/s79742/BREXIT11%20-%20Celfyddydau%20Rhyngwladol%20Cymru.pdf

2 https://busnes.senedd.cymru/documents/s101532/COV03%20-%20Cyngor%20Celfyddydau%20Cymru%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

[3] https://arts.wales/sites/default/files/2019-12/Asesu%20cyfraniad%20yr%20Undeb%20Ewropeaidd%20at%20gelfyddydau%20Cymru%20er%202007.pdf

[4] https://committees.parliament.uk/writtenevidence/5532/pdf/

7. Rydym ni’n cefnogi'n gyffredinol ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at y gronfa ffyniant a rennir, seiliedig ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cytunwn fod cael rôl ganolog i'r sector diwylliannol mewn rhaglen ddatblygu ranbarthol yn y dyfodol yn bwysig. Rydym ni hefyd yn croesawu'n fawr y cynnig i alluogi cysylltiadau rhyngwladol i fod yn rhan o brosiectau dan raglenni’r dyfodol.

8. Rydym ni’n cefnogi'r cynnig y dylid rhoi'r dewis i Lywodraeth Cymru barhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys Ewrop Greadigol, yn amodol ar y gwerth am arian (a ddylai fod yn unol â gwerthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Byddem yn dadlau'n gryf o blaid manteision parhau i gymryd rhan yn y rhaglen Ewrop Greadigol.

9. Dylai unrhyw raglen amnewid gan Brydain:

- Galluogi'r sector i ganfod a meithrin partneriaethau a rhwydweithiau hirsefydlog
- Bod yn rhaglen deg a chydweithiol gyda gwledydd sy'n bartneriaid
- Bod yn rhaglen hirdymor sy'n galluogi cysylltiadau hirsefydlog i dyfu a datblygu mewn marchnadoedd allweddol
- Blaenoriaethu a gwerthfawrogi amlieithrwydd
- Gwerthfawrogi partneriaethau trawswladol sy’n cynnwys rhagor o wledydd
- Canolbwyntio ar gyfranogiad mewn rhwydweithiau a ariennir drwy raglenni fel Ewrop Greadigol

## Canfyddiadau rhyngwladol o Brydain

10. Rydym ni'n pryderu am ganfyddiadau rhyngwladol o Brydain ar hyn o bryd. Drwy'r celfyddydau a diwylliant, rydym ni’n credu y dylem fod yn meithrin diwylliant lles yng Nghymru ac yn magu enw da fel gwlad agored sy'n wynebu'r dyfodol yn unol â'r gwerthoedd sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

11. Byddem ni’n dadlau y gellir defnyddio unrhyw raglenni ariannu yn y dyfodol (wedi'u datganoli a'u canoli) i ddatblygu partneriaethau a chydweithio diwylliannol rhyngwladol. Dyma'r ffordd orau o sicrhau y gall mentrau wedi'u brandio dan arweiniad Cymru gydfodoli ar y cyd â Phrydain Fyd-eang/Global Britain i gymryd lle'r rhaglen Ewrop Greadigol (fel yn wir roeddent yn gallu cael eu hariannu gan y

cronfeydd strwythurol ac INTERREG ac ati).

12. Mae gennym bryderon y bydd strategaeth "pŵer meddal" Llywodraeth Prydain a brand "GREAT" yn pennu buddsoddiad rhyngwladol newydd. Mae diwylliant wedi'i ddatganoli ac felly hefyd agenda cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol a buddsoddiadau Llywodraeth Cymru. Dylai'r rhain gael eu harwain gan Gymru a'u rhoi ar y lefel ryngwladol gan frand Cymru a'u llywio gan werthoedd lles. Gall brandiau Cymru/Global Britain gydfodoli, ond bydd angen sensitifrwydd a pharch diwylliannol ym Mhrydain ac yn rhyngwladol.

## Masnach, ffiniau a mewnfudo

13. Rydym ni wedi codi nifer o bryderon o'r blaen ynghylch y cynigion sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd drwy'r Bil mewnfudo newydd. Mae ei effaith ar allu'r sector celfyddydol hynod fregus i barhau i weithio mewn ffordd ystwyth a hyblyg mewn (a chyda) gwledydd yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 31 Rhagfyr 2020 wedi cael ei daro'n ddifrifol gan y coronafeirws.

14. Mae'r effaith ar deithio rhyngwladol, ar allu lleoliadau i ailagor ar hyn o bryd, heb sôn am gynnal sioe ryngwladol a'r holl oblygiadau cysylltiedig o ran costau yn peri pryder mawr. Er bod hyn yn bryder byd-eang, a rennir gan y sector celfyddydol ledled y byd, bydd artistiaid, cwmnïau a lleoliadau Cymru dan ragor o anfantais oherwydd y costau ychwanegol a'r fiwrocratiaeth sydd eu hangen o ganlyniad i newidiadau i'r cyfreithiau mewnfudo a ddaw i rym ar ôl brecsit.

15. Drwy ein haelodaeth o'r Ffederasiwn Diwydiannau Creadigol, rydym ni'n cefnogi eu gwaith eiriolaeth gydag Adran dros Fasnach Ryngwladol Llywodraeth Prydain am anghenion y sector diwydiannau creadigol ehangach mewn perthynas â'r cytundebau masnach rydd.

10 Gorffennaf 2020